



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Diwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol Ychwanegol 2019- 22

Diwygio'r rheoliadau i ganiatáu diwrnodau HMS Cenedlaethol ar gyfer
Dysgu Proffesiynol yn 2019-22 er mwyn helpu i gyflwyno'r cwricwlwm
newydd

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mawrth 2019
Camau gweithredu gofynnol: Ymateb erbyn 1 Mai 2019

This document is also available in English.

Diwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol Ychwanegol 2019-22

Trosolwg

Cyflwyno diwrnodau HMS ychwanegol i ddarparu dysgu proffesiynol er mwyn helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd ar gyfer 2019-22

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn **1 Mai 2019** fan bellaf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

<https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/>

https://beta.llyw.cymru/y-dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-profesiynol?_ga=2.218701215.709073045.1550500874-363195584.1549039817

Mae dogfennau'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Addysgeg, Dysgu Proffesiynol ac Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu Professional
Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: IsadranAAaDP.PL&PLDivision@llyw.cymru
Ffôn: 03000628890



@WG_Education



Facebook/EducationWales

Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw wybodaeth a roddwch inni fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu eich data personol a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am sut maent yn ymarfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion yn yr ymgynghoriad hwn neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau i'r dyfodol yn gweld unrhyw ymateb a anfonwch atom yn llawn. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn fanylach yna gallai gomisiynu trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (ee. sefydliad ymchwilio neu gwmni ymgynghori). Ni fydd y cyfryw waith ond yn cael ei wneud dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y sawl neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw neu'ch cyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata o'ch eiddo a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am hyd at dair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod am y data personol a ddelir amdano a chael mynediad ato
- cael cywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hwnnw
- cael dweud (o dan rai amgylchiadau) nad ydych am inni ddefnyddio'r cyfan neu ran o'ch data personol
- cael eich data wedi'i ddileu (o dan rai amgylchiadau)
- cael eich data wedi'i symud (o dan rai amgylchiadau)
- gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael manylion pellach am y wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am ymarfer eich hawliau dan GDPR, gweler y manylion cysylltu isod:
Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Ymgynghoriad ar Ddiwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol Ychwanegol

Beth yw'r prif faterion?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar gyflwyno diwrnodau HMS ychwanegol sy'n canolbwyntio'n benodol ar Ddysgu Proffesiynol er mwyn helpu athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Ble rydym ni arni nawr?

Ar hyn o bryd, mae athrawon yn cael pum diwrnod o HMS (Hyfforddiant Mewn Swydd) bob blwyddyn academaidd. Mae'r diwrnodau hyn eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau Dysgu Proffesiynol amrywiol a darpariaeth Dysgu Proffesiynol statudol.

Pam rydym yn cynnig newid?

Rydym yn awyddus i gynorthwyo gweithwyr addysgu proffesiynol yn benodol i baratoi i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Rydym yn credu y bydd yn hollbwysig canolbwyntio ar Ddysgu Proffesiynol er mwyn sicrhau bod ymarferwyr o bob math yn barod ar gyfer y [cwricwlwm](#) newydd.

Bydd y [Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol](#) a'r buddsoddiad £24 miliwn cysylltiedig yn helpu i greu amser mewn ysgolion i weithwyr proffesiynol ddatblygu a gwella eu sgiliau, gan gydwethio mewn ac ar draws ysgolion.

Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno amcanion "Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl". Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu agwedd genedlaethol at Ddysgu Proffesiynol gydol gyrfa (sy'n cynnwys athrawon/ymarferwyr, staff cymorth dysgu a staff cyflenwi), sy'n datblygu gallu yn dilyn Addysg Gychwynnol i Athrawon ac yn deillio o ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chydweithio effeithiol. Mae gan y systemau addysg gorau yn y byd addysgwyr a staff cymorth bywiog a gweithgar sydd wedi ymrwmo i ddysgu parhaus. Rydym yn awyddus i gefnogi athrawon yng Nghymru i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes sy'n gwella eu hymarfer personol ac yn myfyrio arno er mwyn cymell ac ysbrydoli'r bobl ifanc dan eu gofal.

Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a darparu'r cyllid ychwanegol hwn, mae angen atgyfnerthu ymgysylltiad cyffredinol ledled y system â'r broses o baratoi ar gyfer goblygiadau'r cwricwlwm newydd – ac rydym yn cydnabod bod angen rhoi amser i ymarferwyr o bob math wneud hyn.

Beth rydym yn ei gynnig?

Felly, rydym yn cynnig rhoi amser ychwanegol i ymarferwyr ar ffurf diwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol. Rydym o'r farn y dylai'r diwrnodau hyn fod ar gael am y 3 blynedd academaidd nesaf (2019/20, 2020/21 a 2021/22) wrth i ysgolion ddysgu am y cwricwlwm newydd cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol mewn ysgolion (blwyddyn academaidd 2022/23). Bydd hyn yn cynyddu'r pum diwrnod HMS presennol a ddyrennir i ysgolion bob blwyddyn academaidd.

I wneud hyn bydd rhaid i ni gynyddu diwrnodau HMS trwy ddiwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003. Byddai'r newid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a gynhelir ddefnyddio un diwrnod (h.y. dwy sesiwn ysgol) at ddibenion HMS, gan ganolbwyntio'n benodol ar Ddysgu Proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd. O ganlyniad, byddai ysgolion yn cynnal chwe diwrnod HMS y flwyddyn, a byddai'r ysgolion ar gau i ddisgyblion ar y diwrnod HMS ychwanegol.

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig y bydd y diwrnod HMS ychwanegol hwn yn ddiwrnod Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, i'w gynnal ar yr un diwrnod ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Fodd bynnag, hoffem glywed safbwyntiau ar ymarferoldeb hyn. Os ydym yn penderfynu pennu dyddiad cyffredin, bydd Gweinidogion Cymru yn pennu dyddiad y diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol bob blwyddyn, gan hysbysu ysgolion trwy anfon llythyr atynt. Byddwn ni'n ymgynghori'n anffurfiol â'r rhanbarthau ac Awdurdodau Lleol cyn pennu'r dyddiad neu'r cyfnod ar gyfer y diwrnod HMS. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r rhan fwyaf o'r cynnwys i'w ddefnyddio yn ystod y diwrnod HMS, ond bydd yn cael ei gyflwyno ar lefel leol trwy ddefnyddio cynnwys digidol rhyngweithiol.

Rydym yn cydnabod y gall y diwrnod HMS ychwanegol hwn fod yn anodd i rai rhieni, ond rydym yn credu bod y dull gweithredu cenedlaethol hwn yn angenrheidiol gan y bydd yn sicrhau bod **pob** athro yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar yr un pryd, yn hyrwyddo cyfranogiad wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac yn hwyluso sgwrs genedlaethol ynglŷn â Dysgu Proffesiynol ar gyfer ymarferwyr.

Rydym yn rhagweld y bydd y Dysgu Proffesiynol ar y diwrnodau hyn ar gael i staff cymorth, yn unol ag egwyddorion y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Pa ganlyniadau ydym yn eu disgwyl?

Bydd diwrnodau HMS ychwanegol dros y cyfnod hwn yn sicrhau bod holl athrawon Cymru yn gallu manteisio ar becyn Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol sydd â'r bwriad penodol o'u helpu i baratoi am y newid sylfaenol a fydd yn deillio o'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc, gan y bydd eu hathrawon wedi'u paratoi'n well ar gyfer y newidiadau i'r cwricwlwm.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1

Bwriad y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a'r buddsoddiad £24 miliwn cysylltiedig yw helpu i greu amser mewn ysgolion fel bod gweithwyr proffesiynol yn gallu datblygu eu hunain a'u sgiliau a chydweithio mewn ysgolion ac ar draws ysgolion. Fodd bynnag, er gwaethaf y dull gweithredu newydd hwn a'r cyllid ychwanegol, rydym yn credu y gall fod angen atgyfnerthu ymgysylltu cyffredin ledled y system â pharatoi ar gyfer goblygiadau'r cwricwlwm newydd.

Felly, cynigir sefydlu diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ychwanegol a fydd yn ategu'r amser HMS a ddyrennir i ysgolion ar hyn o bryd.

- **Ydych chi'n credu bod angen diwrnod HMS ychwanegol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd?**

Cwestiwn 2

Cynigir cyflwyno un diwrnod HMS ychwanegol bob blwyddyn am y tair blynedd uchod. Bydd y diwrnod hwn yn canolbwyntio'n benodol ar Ddysgu Proffesiynol i helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Awgrymir y bydd hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng cymorth ac amser ychwanegol a faint o amser y mae disgyblion yn ei dreulio yn yr ysgol.

- **Ydych chi'n credu y bydd un diwrnod HMS ychwanegol bob blwyddyn am dair blynedd yn adnodd ychwanegol digonol i helpu i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd?**

Cwestiwn 3

Rydym yn credu bod y tair blynedd hyn yn gyfnod allweddol ar gyfer ymgysylltu a pharatoi cyn mynd ati i gyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion trwy gyhoeddi'r cwricwlwm drafft yn 2019, y cwricwlwm terfynol yn 2020, a'r broses gyflwyno statudol o 2022 ymlaen.

- **Am sawl blwyddyn y dylai'r diwrnodau HMS ychwanegol fod ar gael?**

Cwestiwn 4

Mae gennym ddi-ddordeb yn eich safbwyntiau ar sut mae diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae gennym ddi-ddordeb mewn tystiolaeth ac enghreifftiau o'r defnydd presennol o HMS, a sut y gellir defnyddio HMS yn y cyfnod cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd er mwyn helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn ehangach wrth symud ymlaen.

- **Beth yw'ch barn am y defnydd presennol o ddiwrnodau HMS?**

Cwestiwn 5

Rydym yn cynnig cyflwyno dull gorfodol o ddefnyddio'r diwrnod ychwanegol er mwyn sicrhau bod holl athrawon Cymru yn gallu manteisio ar becyn Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol sydd â'r bwriad penodol o'u helpu i baratoi am y newid sylfaenol a fydd yn deillio o'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

- **Ydych chi'n credu y dylem baratoi cynnwys gorfodol ar gyfer y diwrnodau ychwanegol hyn?**

Cwestiwn 6

Rydym eisiau osgoi sefyllfa lle mae unrhyw athro neu ysgol yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl, ac rydym am greu sgwrs genedlaethol ynglŷn â Dysgu Proffesiynol. Hoffem glywed eich safbwyntiau ar a fyddai dyddiad penodedig ar gyfer HMS ychwanegol yn llwyddo yn ymarferol.

- **Ydych chi'n credu y byddai'n fanteisiol pennu dyddiad penodedig ar gyfer y diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, neu a fyddai'n well pennu cyfnod (h.y. yn ystod tymor neu hanner tymor penodol)?**

Hefyd, mae nifer o gwestiynau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a lle i wneud sylwadau ehangach yn y ffurflen ymgynghori.